Lesley Griffiths AC/AM
Gweinidog yr Amgylchedd a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-P/KS/3287/19

Mike Hedges AC
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

23 Medi 2019

Annwyl Mike

Diolch am eich llythyr dyddiedig 13 Chwefror ynghylch y cais am wybodaeth ysgrifenedig i lywio eich proses o graffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2019-20.

Ar 9 Awst, cafwyd cadarnhad gan Lywodraeth y DU y byddai'n cynnal cylch gwariant 'trac cyflym' am flwyddyn i'w gwblhau ym mis Medi, gydag Adolygiad Gwariant i'w gynnal yn 2020. Ar 15 Awst anfonodd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd Ddatganiad Ysgrifenedig mewn ymateb. Roedd hyn yn cadarnhau bod yr ansicrwydd yn parhau ynghylch yr hyn y mae cylch gwariant trac cyflym ym mis Medi yn ei olygu o ran cynlluniau Llywodraeth y DU ar gyfer Cyllideb yr Hydref, ac y bydd yn rhoi diweddariad pellach ar y goblygiadau i Gymru unwaith y bydd rhagor o fanylion ar gael.

Unwaith y ceir mwy o eglurder, rwy'n edrych ymlaen at drefnu dyddiadau ffurfiol ar gyfer fy sesiwn tystiolaeth ar lafar ar amser sy'n gyfleus i bawb. Yn y cyfamser, rwy'n ddiolchgar am ddealltwriaeth parhaus y pwyllgor ar y mater hwn, ac yn croesawu'r rhybudd ymlaen llaw o'r wybodaeth ysgrifenedig sydd ei hangen gennych i lywio'r broses o graffu ar y gyllideb.

Yn gywir

Lesley

Lesley Griffiths AC/AM
Gweinidog yr Amgylchedd a Materion Gwledig

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb i ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn yr un iaith ac ni fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.